OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 6

# Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022

**Dehongli**

**2.**—(1) Mae i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cyfnod meddiannaeth" ("*period of occupation*"), mewn perthynas â chontract meddiannaeth, yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau â dyddiad meddiannu'r contract, a

(b) sy'n dod i ben pan ddaw'r contract i ben; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

(3) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 7.